Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

# Dyfed-Powys

## 2018/19 Praesept a Chyllideb

**Ionawr 2018**

## Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 2
1. Cyflwyniad ........ 4
2. Cyllido – Setliad dros dro 2018/19 ........ 6
3. Praesept yr Heddlu 2018/19 ........ 9
4. Cyllideb Refeniw Ddrafft 2018/19 ........ 13
5. Cronfeydd wrth gefn ........ 18
6. Cyfalaf ........ 20
Atodiad A – Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol ........ 21
Appendix B – Cynllun Ariannol Tymor Canolig ........ 35

## Crynodeb Gweithredol

Un o fy mhrif gyfrifoldebau, fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ydy pennu'r praesept bob blwyddyn. Wrth wneud hynny, rwyf yn ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys gofynion adnoddau'r Prif Gwnstabl at y dyfodol, lefel y cronfeydd wrth gefn, adborth trigolion Dyfed-Powys, a'r cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn isadeiledd.

Mae'r setliad drafft a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2017, sef £49.313 miliwn, yn rhewi cyfanswm y cyllid craidd oddi wrth y llywodraeth, mewn termau arian parod, o gymharu â 2017/18.

Yn 2017/18, codais braesept y dreth gyngor o 6.9%. Y canlyniad oedd pennu’r praesept am dŷ band D yn Nyfed-Powys, ar gyfartaledd, yn y swm o £213.87. Y ffigyrau cymharol ar gyfer heddluoedd eraill Cymru oedd £218.24 yn Ne Cymru, £228.84 yng Ngwent, a £249.21 yng Ngogledd Cymru.

Ar hyn o bryd, cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yw £27.233 miliwn[1], wedi'u rhannu rhwng cronfa refeniw wedi'i chlustnodi, cronfa gyfalaf a chronfa gyffredinol. Rhagwelir y bydd cyfanswm y cronfeydd y gellir eu defnyddio yn gostwng i £5.318 miliwn erbyn 2020/21.

Yn 2017/18, cafwyd dau ddigwyddiad nad oedd modd eu rhagweld - dyfarniad cyflog heb ei gyfuno ar gyfer Heddweision, ac ymchwiliad sylweddol i dân angheuol yn Llangamarch. Nid oedd cyllideb ar gyfer y rhain, a chânt eu cyllido o'r cronfeydd wrth gefn. Heblaw am y digwyddiadau hyn, er bod y flwyddyn wedi bod yn heriol, mae'r perfformiad ariannol wedi bod yn unol â'r gyllideb a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Felly, rwyf yn cyflwyno cynnig i Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys graffu arno y dylid pennu praesept o £49.788 miliwn. Felly, bydd cyfanswm y cyllido canolog a lleol yn £99.100 miliwn (cynnydd o 2.57% o gymharu â 2017/18).

Bydd y praesept ar gyfer tŷ band D, ar gyfartaledd, yn £224.56. Bydd hyn 5% (£10.63) yn uwch na'r lefel yn 2017/18.

Bydd y lefel gyllido hon yn diogelu nifer yr Heddweision yn yr Heddlu. Ar ddechrau 2018/19 rhagwelir y bydd 1,203 o heddweision. Gyda rhai yn gadael a rhai yn cael eu recriwtio, rhagwelir y bydd y cyfartaledd yn ystod y flwyddyn yn cyfateb i'r nifer cytunedig, sef

[1] Ar 31 Mawrth 2017

1,172. Bydd y lefel gyllido hon hefyd yn canolbwyntio ymhellach ar fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi. Rwyf yn falch o gael adrodd bod yr Heddlu, yn ystod y flwyddyn, wedi'i raddio'n “Dda” yn adroddiad diweddaraf yr Arolygiaeth, ar Gyfreithlondeb ac Arweinyddiaeth, ac rwy’n hyderus bydd y Llu yn dal ati i wneud cynnydd yn ystod y flwyddyn i ddod.

Rydw i’n disgwyl y byddaf yn derbyn hysbysiad o'r setliad terfynol ar gyfer 2018/19 ym mis Chwefror 2018. Byddaf yn hysbysu'r Panel am unrhyw newidiadau i'r setliad dros dro pan fyddaf yn eu derbyn.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r trefniadau statudol dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn gosod amserlen dynn arnaf. Mae'n rhaid i mi gyflwyno fy nghynnig cychwynnol o ran y praesept ar gyfer 2018/19 i Banel Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys erbyn 1 Chwefror 2018, yn sgil cyhoeddi'r setliad dros dro ar 19 Rhagfyr 2017. Ers haf diwethaf, rwyf wedi cynnal sgyrsiau rheolaidd gyda'r Prif Gwnstabl ynglŷn â sefyllfa ariannol y Llu. Cynhaliais nifer o gyfarfodydd ffurfiol i ystyried y cyllideb am 2018/19 gan ddiweddu gyda Seminar Cyllid ar 6 Rhagfyr 2017, lle trafodwyd fy nghynlluniau ar gyfer praesept 2018/19.

1.2 Er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, yr wyf wedi ymgynghori â'r cyhoedd. Yr wyf hefyd wedi ymgynghori â'r Prif Gwnstabl, gan drafod yn fanwl ei gynlluniau o ran lefelau staffio, gwasanaethau plismona a'r angen am fuddsoddiad, wrth gytuno cyllideb yr Heddlu ar gyfer 2018/19 ac er mwyn pennu praesept yr heddlu.

1.3 Nid oedd sôn am y gwasanaeth plismona yn Natganiad Hydref 2017. Fodd bynnag, mae llythyr a datganiad y Gweinidog dros Heddlu a Gwasanaethau Tân ill dau yn datgan bwriad y Swyddfa Gartref i gynnig mwy o sicrwydd o ran y cynlluniau ar gyfer 2019/20. Eu bwriad yw cynnal setliad terfynol ar yr un lefel yn fras, ond mae hyn yn dibynnu ar y cynnydd o ran nifer o gerrig milltir yn ymwneud ag effeithlonrwydd sydd i'w cytuno yn y flwyddyn newydd.

1.4 Y llynedd, gwnaed gwaith sylweddol ar adolygu'r fformiwla cyllido. Fodd bynnag, daeth y gwaith hwn i ben pan gyhoeddwyd etholiad sydyn, ac mae'n annhebyg y byddant yn ailgydio yn y gwaith hwn tan yr adolygiad gwario nesaf. Er bod croeso mawr i sicrwydd o ran cyllido'r dyfodol, erys ansicrwydd hyd nes y cyflwynir fformiwla cyllido newydd. Byddai'r adolygiad diwethaf (nas gweithredwyd) o'r fformiwla cyllido (ailddosbarthu cyllid rhwng heddluoedd) wedi golygu colled o yn agos at £8 miliwn ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.

1.5 Felly, mae'r cynllun cyllido tymor canolig yn ymgorffori gostyngiad o 4% yn y grant canolog o 2021/22 ymlaen i adlewyrchu'r newid posibl yn y fformiwla a'r effaith y gallai gael ar Heddlu Dyfed-Powys.

1.6 Yr wyf hefyd yn gefnogol iawn o'r gwelliannau yn y gwasanaeth y mae'r Prif Gwnstabl yn eu cyflwyno. Mi fydd rhain yn helpu i drosglwyddo gwasanaethau sydd yn cydfynd gyda dymuniadau y

cyhoedd yn Nyfed-Powys ac sydd hefyd yn cefnogi'r blaenoriaethau a nodwyd yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu. Bydd nifer o'r gwelliannau hyn yn trosglwyddo argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (yr Arolygiaeth), ac yr wyf yn falch o adrodd bod yr Heddlu wedi'i raddio'n "Dda" yn adroddiad diweddaraf yr Arolygiaeth ar Gyfreithlondeb ac Arweinyddiaeth. Dyma'r radd 'Da' cyntaf i'r Heddlu ei dderbyn.

1.7 Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu'r wybodaeth angenrheidiol i aelodau Panel Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys allu craffu ar fy mhenderfyniad cychwynnol ar y praesept ac ar gyllideb 2018/19. Yr wyf eisoes wedi ymgynghori â'r cyhoedd a'r Prif Gwnstabl ar y rhain.

1.8 Mae Atodiad A yn cynnwys adroddiad Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu am y cronfeydd a'r risgiau cyllidebol.

1.9 Mae Atodiad B yn cyflwyno'r cynllun ariannol tymor canolig hyd at 2023/24.

## 2. Cyllido – Setliad dros dro 2018/19

2.1 Ar 19 Rhagfyr 2017, cyhoeddwyd setliad dros dro 2018/19 ar gyfer cyllido'r heddlu mewn datganiad llafar gan y Gweinidog dros Heddlu a Gwasanaethau Tân, y Gwir Anrhydeddus Nick Hurd AS. Cafwyd datganiad gweinidogol ysgrifenedig yn fuan wedyn, yn ogystal â setliad dros dro 2018/19 Llywodraeth Cymru ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.

2.2 Cyhoeddodd datganiad y Gweinidog:

- Grant heb newid yn nhermau arian parod (hynny yw, yr un dyraniadau ag yn 2017/18)
- Cyllid ychwanegol o £450 miliwn ar gyfer y gwasanaeth - mae hyn yn cynnwys £130 miliwn ychwanegol o ailddyraniadau, £147 miliwn sydd wedi ei rhagfynegi a bod CHTh yn gweithredu cynydd o £12 i'r braesept, £50 miliwn ychwanegol ar gyfer gwrthderfysgaeth, a £123 miliwn o "arian newydd";
- Setliad am un flwyddyn yn unig, ond gan ddatgan y bwriad y bydd setliad 2019/20 hefyd, yn fras, ar yr un lefel yn nhermau arian parod, gan ddibynnu ar y cynnydd o ran cerrig milltir effeithlonrwydd.

2.3 Canlyniad y setliad yw grant creiddiol yn y swm o £49.313 miliwn, yr un swm ag yn 2017/18.

2.4 Cyflogau Heddweision - Mae llythyr y Gweinidog at Gomisiynwyr a Phrif Gwnstabliaid yn cynnwys cyfeiriad at y setliad cyflogau ar gyfer heddweision. Barn y Gweinidog yw y bydd y cyllido a gyhoeddwyd ganddo, gydag arbedion o ran caffael yn ogystal â'r arbedion a nodwyd yn adroddiad yr Arolygiaeth ar Effeithlonrwydd, yn galluogi Comisiynwyr i wneud darpariaeth addas ar gyfer y codiadau tebygol o ran costau yn ystod y flwyddyn nesaf o fewn eu cynlluniau ariannol. Mae hyn yn cynnwys gweddill y costau o'r elfen 1% heb ei gyfuno o ddyfarniad cyflog 2017 yn ogystal â'r costau tebygol o ddyfarniad cyflog 2018. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud mai mater i arweinwyr yr heddlu yw gwneud cynigion o ran dyfarniad cyflog 2018, gan adlewyrchu'r hyn sydd yn deg i heddweision a threthdalwyr.

2.5 Setliadau'r Dyfodol - Mae llythyr a datganiad y Gweinidog ill dau'n datgan bwriad y Swyddfa Gartref i gynnig mwy o sicrwydd ar gyfer cynlluniau 2019/10. Eu bwriad yw cynnal setliad terfynol ar yr un lefel yn fras, gyda'r un hyblygrwydd o ran y praesept, ond mae hyn yn

dibynnu ar y cynnydd o ran nifer o gerrig milltir ynghylch effeithlonrwydd sydd i'w cytuno yn y flwyddyn newydd. Annhebyg y byddant yn ail-gydio yn y gwaith o adolygu'r fformiwla tan yr adolygiad gwario nesaf.

2.6 Ailddyraniadau - Yn 2018/19 mae'r brigdoriadau/ailddyraniadau'n dod i gyfanswm o £945 miliwn, £133 miliwn yn uwch na 2017/18 (£812 miliwn).

2.7 Cronfa Trawsnewid yr Heddlu - Sefydlwyd hyn gyntaf oll yn 2016/17, ac roedd yn werth £76.4 miliwn). Yn 2017/18, cododd y cyfanswm i £175 miliwn, ond roedd hynny'n cynnwys y gronfa arloesi. Y disgwyl oedd y byddai'n codi eto, i ryw £300 miliwn yn 2018/19. Fodd bynnag, dywed datganiad y Gweinidog y bydd y Gronfa yn aros ar yr un lefel, mewn termau arian parod, ag yn 2017/18 sef £175 miliwn, a neilltuir £130 miliwn ar gyfer technoleg ddigidol a grantiau arbennig. Yn y dyfodol, bydd gwariant o Gronfa Trawsnewid yr Heddlu ar sail gwaith a gomisiynir yn hytrach nag ar sail ceisiadau. Mae £50 miliwn, yn fras, eisoes wedi'i neilltuo ar gyfer grantiau blaenorol sy'n rhedeg dros fwy nag un flwyddyn.

2.8 Rhwydwaith Gwasanaethau Argyfwng – Mae hwn yn raglen sydd yn cael ei reoli yn genhedlaethol i ail-osod system gyfathrebu radio Airwave. Dywedwyd bod cyllido 2016/17 yn cynnwys cyfran yr Heddlu o £1 biliwn ar gyfer y Rhwydwaith er nad oedd wedi'i nodi ar wahân. Bydd heddluoedd yn parhau i dalu am Airwave tan fod y Rhwydwaith newydd ar waith. Yn ystod y broses bontio, ac ar ôl i'r Rhwydwaith fod ar waith, bydd angen i Gomisiynwyr dalu costau lleol y Rhwydwaith, gan gynnwys costau data a chysylltu, dyfeisiau, a'r costau o'u gosod, yn ogystal ag uwchraddiadau i'r ystafell reoli. Fodd bynnag, ers 2016/17, amcangyfrifir bod y Rhwydwaith rhyw 15 mis yn hwyr o gymharu â'r cynllun. Mae'r oedi hyn yn golygu y bydd raid, o bosibl, i heddluoedd ymestyn eu contractau Airwave, sydd yn debyg o olygu cost ychwanegol, yn ogystal â gohirio'r arbedion a ddaw o'r Rhwydwaith newydd. Amcangyfrifir mai'r gost o oedi 12 mis yw £400 miliwn ar draws Lloegr a Chymru, yn fras. Nid yw'n glir eto sut y telir y costau ychwanegol hyn - na phwy fydd yn eu talu.

2.9 Gwrthderfysgaeth - Negodir cyllid gwrthderfysgaeth ar wahân i setliad yr heddlu. Cyhoeddwyd y gyllideb ar gyfer gwrthderfysgaeth, a fydd yn codi o £50 miliwn, sef 7% yn fwy na'r llynedd. Nid yw'n hysbys eto a fydd y cyllido ychwanegol yn refeniw neu gyfalaf. Fodd bynnag, disgwylir y caiff ei ddosbarthu, gan fwyaf, i unedau gwrthderfysgaeth.


2.10 Yn ei grynswth, mae'r Grantiau Cyfalaf wedi'u gostwng; y cyfanswm oedd £82 miliwn yn 2016/17, a £77.2 miliwn yn 2017/18. Bydd yn £75.2 miliwn yn 2018/19. Mae dyraniadau grantiau cyfalaf yr heddlu'n aros yr un peth ag yn 2017/18. Yn genedlaethol, neilltuwyd £1 miliwn a £13.1 miliwn ar gyfer Grant Cyfalaf Arbennig a Gwasanaethau Byw'r Heddlu yn eu tro. Hefyd, mae £15.2 miliwn ar gael ar gyfer Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Mae'r dyraniad cyfalaf dros dro ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys yn 2018/19 yn aros yn £0.318 miliwn, yr un peth â 2017/18.

2.11 Mae cyllid ar gyfer dioddefwyr yn dod o'r Weinidogaeth Cyfiawnder. Yn 2017/28, derbyniasom £605k, a'r setliad dros dro ar gyfer 2018/19 yw £600k.

## 3. Praesept yr Heddlu 2018/19

3.1 Ar 6 Rhagfyr 2017, cynhaliais seminar cyllid gan wahodd aelodau'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cydbwyllgor Archwilio, a Swyddfa Archwilio Cymru. Amcan y digwyddiad oedd caniatáu i'r heddlu gyflwyno crynodeb o'r amgylchedd gweithredol y mae'n gweithio ynddo ac effaith hynny ar lefel y galw - ac felly'r angen am adnoddau - ar gyfer 2018/19 a'r blynyddoedd i ddod. Hefyd, roedd y seminar yn trafod y camau a gymerwyd hyd yma o ran paratoi cyllideb 2018/19, gan gynnwys rhagdybiaethau, arbedion a buddsoddiadau.

3.2 Yr wyf wedi ystyried lefel y dreth gyngor ar gyfer yr heddlu ar draws Cymru:




3.3 Yr wyf hefyd wedi ymgynghori â'r cyhoedd am lefel y praesept y byddaf yn ei bennu ar gyfer 2018/19. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad â'r cyhoedd rhwng 24 Tachwedd a 15 Rhagfyr 2017, a derbyniwyd 217 o ymatebion.

3.4 Mewn ymateb i'r cwestiwn cyntaf "O ran eich cyfraniad i gostau plismona, a fyddech yn barod i dalu mwy, llai, neu tua'r un faint ag yn 2017/18?", dywedodd 51.6% o'r rhai a ymatebodd eu bod yn barod i dalu mwy, a 28.4% yr hoffent dalu tua'r un faint a dywedodd 20% y byddai'n well ganddynt dalu llai.

3.5 Mewn ymateb i'r ail gwestiwn, "Gan ystyried eich ymateb i'r cwestiwn cyntaf, rhowch dic wrth ochr eich dewis am y newid yn y praesept ar gyfer 2018/19 (o gymharu â 2017/18)", yr opsiwn mwyaf poblogaidd oedd cynnydd o 5%, yna cynnydd o 1% ac yn olaf cynnydd o 3%. Dewisodd hanner un o'r tri opsiwn.

3.6 Mewn ymateb i'r trydydd cwestiwn, "Os ydych chi'n fodlon talu mwy, pa feysydd plismona ddylai dderbyn rhagor o arian yn 2018/19?", dewisodd 21% blismona bro, dewisodd 12% ddiogelu'r rhai diamddiffyn, dewisodd 11% ddiogelu plant, a dewisodd 11% blismona gwledig. Mae'r blaenoriaethau hyn yn gyson gyda blaenoriaethau fy Nghynllun Heddlu a Phlismona a gyhoeddwyd ym Mawrth 2017.

3.7 Mewn ymateb i'r pedwerydd cwestiwn, "Os ydych am dalu llai, pa feysydd plismona ddylai dderbyn llai o gyllid yn 2018/19?", dewisodd 27% ystadau, dewisodd 22% brosiectau gwrthdyniadol ar gyfer pobl ifanc, a dewisodd 14% ddiogelwch y ffyrdd.

3.8 Wrth ddod i benderfyniad ar braesept yr heddlu ar gyfer 2018/19, yr wyf hefyd wedi ystyried sefyllfa ariannol bresennol y sefydliad a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

3.9 Mae 2017/18 wedi bod yn flwyddyn heriol o ran cyllid. Cafwyd dau ddigwyddiad nas rhagwelwyd:

- Mae heddweision wedi derbyn codiad o 1% yn eu cyflog yn ogystal ag 1% ychwanegol ar sail heb ei gyfuno, gan ddechrau ar 1 Medi 2017. Ni ragwelwyd yr elfen heb ei gyfuno, a fydd yn costio oddeutu £320k yn y flwyddyn ariannol 2017/18. Mae negodi'n parhau o ran cyflog staff yr heddlu. Os byddant yn derbyn yr un dyfarniad, bydd yr elfen heb ei gyfuno'n golygu cost o oddeutu £120k i'r sefydliad. Ar adeg ysgrifennu'r papur hwn, tybir y tynnir £448k o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer y mater hwn;

- Bu raid i'r Heddlu ddelio ag ymchwiliad sylweddol a chymhleth i dân mewn tŷ anghysbell ger Llangamarch. Eisoes neilltuwyd £560k ar gyfer y mater hwn (Ymgyrch Heath). Mae'r ymchwiliad yn parhau ac felly mae'n debyg y bydd y swm sydd i'w dalu o'r cronfeydd wrth gefn yn cynyddu ymhellach cyn diwedd blwyddyn ariannol 2017/18.

3.10 Mewn trafodaethau â'r Prif Gwnstabl, yr wyf wedi cytuno cyllido effaith ariannol yr elfen heb ei gyfuno o'r dyfarniad cyflog a chostau Ymgyrch Heath o'r gronfa gyffredinol wrth gefn. Heblaw am y ddau fater hyn, mae'r Heddlu, yn gyffredinol, yn gweithredu yn unol â'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

3.11 Mae gan y sefydliad lefel resymol o gronfeydd wrth gefn, ond mae ganddo hefyd gynlluniau sylweddol ar gyfer buddsoddi yn yr ystâd a buddsoddi ymhellach mewn technoleg. Wrth i arian fynd yn fwy tynn ac wrth i gyllidebau gael eu gosod heb lawer o gapasiti i ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl, disgwyliaf y byddwn yn defnyddio'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn fwy aml. Bydd buddsoddiadau mewn


isadeiledd a defnydd ymhellach o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn golygu gostyngiad cyflawn sylweddol yn lefel y cronfeydd yn y tymor canolig.

3.12 Ar ben hynny, mae'r grant cyfalaf sydd ar gael i mi wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r lefel gyfredol, sef £300k, mae yn gwbl annigonol o ran y buddsoddiadau cyfalaf y mae'n rhaid i mi eu gwneud. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar gyllidebau a chronfeydd. Er mwyn sicrhau bod gennyf y cyllid i ariannu buddsoddiadau cyfalaf yn y dyfodol, bwriadaf wneud cyfraniadau refeniw i'r cynlluniau cyfalaf o 2019/20 ymlaen.

3.13 Cafwyd llawer o drafodaeth a gwnaed gwaith sylweddol yn genedlaethol i adolygu a chreu model newydd i ddosbarthu cyllid ar draws heddluoedd Cymru a Lloegr. Bellach, deallwn na chyflwynir fformiwla newydd cyn yr adolygiad gwario nesaf. O dan yr adolygiad gwario diwethaf, nas gweithredwyd, byddem wedi colli £8 miliwn, ac felly, tra nad yw’n bosib i ni fod yn siwr o ganlyniad adolygiad yn y dyfodol, at ddibenion cynllunio, rwyf wedi cynnwys gostyngiad o 4% yn y grant canolog o 2021/22 ymlaen i adlewyrchu'r gostyngiad posibl yn y grant.


3.14 Trafodir y cynllun ariannol tymor canolig yn fwy manwl yn Atodiad B.

3.15 Mae'r graff canlynol yn dangos sut mae canran y cyllid y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei dderbyn o ffynonellau canolog o gymharu â ffynonellau lleol wedi newid dros amser.





3.16 Yn hanesyddol, roedd y rhan fwyf o gyllid Heddlu Dyfed-Powys yn arfer dod o ffynonellau canolog. Fodd bynnag, mae'r canran a ddaw o ffynonellau canolog wedi disgyn yn araf dros amser, ac yn 2018/19, am y tro cyntaf, bydd y cyllido lleol (£49.788 miliwn) yn fwy na'r cyllido canolog (£49.303 miliwn).

3.17 Mae'r graff canlynol yn dangos (yn £m) y symiau ariannol mae Heddlu Dyfed-Powys wedi ei dderbyn dros amser o ffynonellau canolog yn ogystal â ffynonellau lleol:




3.18 Mae'r graff canlynol yn dangos sut mae praesept y dreth gyngor wedi newid dros amser yn Nyfed-Powys:




3.19 Golyga'r cynnydd arfaethedig ym mhraesept y dreth gyngor y bydd tŷ band D cyfartalog yn talu £224.56 yn 2018/19.

## 4. Cyllideb Refeniw Ddrafft 2018/19

4.1 Canlyniad cyffredinol y setliad dros dro a'r praesept arfaethedig yw cynnydd cyffredinol o £2.484 miliwn yn 2018/19 o gymharu â 2017/18, fel mae'r tabl isod yn dangos.

**Tabl 1: Cyfanswm y cyllido ar gyfer 2018/19 (dros dro)**

| | 2017/18 | 2018/19 | Newid | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | **£m** | **£m** | **£m** | **%** |
| Grant Craidd yr Heddlu | 27.714 | 27.714 | -0.000 | -0.0 |
| Ychwanegu Rheol 1 + Cyllido Gwaelodol | 8.729 | 8.498 | -0.231 | -2.6 |
| Llywodraeth Cymru | 12.870 | 13.101 | +0.231 | -1.8 |
| **Cyllido Canolog** | **49.313** | **49.313** | **-0.000** | **0.0** |
| | | | | |
| Sylfaen Drethu (Band D) | 221,177 | 221,708 | | |
| Y Dreth Gyngor, Band D (£) | 213.87 | 224.56 | | |
| **Praesept** | **47.303** | **49.787** | **2.484** | **5.25** |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **96.616** | **99.100** | **2.484** | **2.57** |

4.2 O ganlyniad lluniwyd y gyllideb fantoledig a ganlyn ar gyfer 2018/19:

**Tabl 2: Cyllideb Refeniw Ddrafft 2018/19**

| | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | **£m** | **£m** |
| **Swyddfa'r Comisiynydd, a Chomisiynu** | **1.977** | **1.993** |
| **Ystadau** | **3.170** | **3.736** |
| **Heddlu** (net, ar ôl trosglwyddo cronfeydd) | **91.469** | **93.371** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **96.616** | **99.100** |

4.3 Heblaw am y rôl Cyfarwyddwr Ystadau yn Swyddfa'r Comisiynydd, mae'r adran ystadau sy'n gyfrifol am redeg ystadau'r Comisiynydd o ddydd i ddydd wedi bod yn rhan o'r Heddlu, dan reolaeth uniongyrchol y Prif Gwnstabl. Ar ôl pennu'r gyllideb y llynedd, trosglwyddwyd yr adran ystadau i swyddfa'r Comisiynydd. Ar gyfer 2018/19, erys cyllideb fechan o gostau mangreoedd yng nghyllideb yr Heddlu, ond mae mwyafrif llethol y costau o ran ystadau bellach yng nghyllideb y Comisiynydd.

4.4 Mae dadansoddiad llawn o'r gwariant arfaethedig yn 2018/19 (hyd at 2023/24) yn Atodiad B.

4.5 Wrth baratoi cyllideb 2018/19, defnyddiwyd y cyfraddau chwyddiant a ganlyn ar gyllideb 2017/18:

**Tabl 3: Rhagdybiaethau Cyllideb 2018/19 (o gymharu â 2017/18)**

| Rhagdybiaethau Cyllidebol (%) | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Heddweision | 1.00% | 2.29% * |
| Staff yr Heddlu | 1.00% | 2.29% * |
| Chwyddiant | 1.00% | 2.50% |
| Tanwydd, adeiladau | 1.00% | 2.50% |
| Tanwydd, cerbydau | 1.00% | 2.50% |
| Grantiau | 0.00% | 0.00% |
| Incwm | 1.00% | 2.50% |
| Ariannu Cyfalaf | 0.00% | 0.00% |
| Pensiynau | 0.00% | 3.00% |

* Mae'r ffigwr o 2.29% yn cynnwys dyfarniad cyflog 2% i heddweision a staff o Fedi 2018, a hefyd yn ariannu hanner y dyfarniad 1% heb ei gyfuno ym Medi 2017 ar ôl Medi 2018. Os bydd yr elfen heb ei gyfuno'n parhau, ariennir yr hanner arall trwy arbedion effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn.

4.6 Yn ogystal â chwyddiant yn 2018/19, nodwyd y gofynion cost ychwanegol eraill a ganlyn ar gyfer 2018/19:

- Contract meddygaeth fforensig - mae angen ail-dendro'r contract presennol ac, o ganlyniad i waith a wnaed gyda chontractwyr posibl, nodwyd bod cost y contract newydd yn debyg o fod rhyw £325k yn uwch flwyddyn nesaf;

- Cost refeniw trwyddedau data symudol - roedd y contract blaenorol ar gyfer data symudol yn cynnwys cost cyfalaf ar gyfer y trwyddedau. Fodd bynnag, mae'r contract newydd mewn fformat gwahanol a bellach mae angen talu am y trwyddedau bob blwyddyn o refeniw. Mae hyn yn gost refeniw ychwanegol o £180k y flwyddyn;

- Cynnydd Trethi Lleol - Cynyddodd y trethi lleol ar gyfer adeiladau yn ystâd y Comisiynydd o £270k yn 2017/18. Nid oedd y ffigyrau ar gael pan bennwyd y gyllideb y llynedd, ac felly fe ddaethpwyd o hyd i'r arian o fewn y gyllideb yn ystod 2017/18 drwy arbedion

unigryw. Fodd bynnag, mae'r cynnydd wedi'i nodi yng nghyllideb 2018/19.

4.7 Ar ôl cyfnod helaeth o drafod ac ymgynghori, mae'r Prif Gwnstabl wedi cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am wariant ychwanegol, sy'n dod i gyfanswm o £469k:

- Ymchwiliadau - Mae angen adnoddau ychwanegol ar yr heddlu i ddelio ag ymchwiliadau'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ar gyfer yr Uned Seiber-drosedd Ddigidol, y Tîm Trosedd Ariannol, a'r Adran Ymchwiliadau Troseddol am gyfanswm o £222k yn 2018/19;

- Dysgu a Datblygu - Mae'r Coleg Plismona'n cyflwyno cymhwyster plismona newydd ac mae na symudiad tuag at sefyllfa ble bydd angen i bob heddwas ennill gradd anrhydedd mewn plismona yn y dyfodol. I gyrraedd y safon newydd hon, rhoddir mwy o hyfforddiant i'r rhai sy'n dewis ennill y cymhwyster tra eu bod yn gweithio yn Heddlu Dyfed-Powys fel prentisiaid. Cynhwyswyd cyllideb o £48k yn 2018/19 ar gyfer yr adnoddau angenrheidiol i gyflwyno'r cynllun prentisiaeth newydd. Ar ben hynny, cynhwyswyd £31k i ariannu hyfforddwr Iechyd a Diogelwch i ddarparu hyfforddiant allweddol ar draws yr Heddlu;

- Arfau Tân - Ar hyn o bryd, mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gwneud gwiriadau i helpu prosesu ceisiadau arfau tân. Er mwyn rhyddhau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i ganolbwyntio ar ddyletswyddau'r rheng flaen, cymeradwywyd cyflogi 3.3 person cyfwerth ag amser llawn i brosesu ceisiadau arfau tân, ac adnewyddu'r fath trwyddedau, am gost o £74k yn 2018/19;

- Prentisiaeth Fodern - Mae tîm y prif swyddogion yn cefnogi cyflogi prentisiaid modern, ac yn bwriadu recriwtio pum prentis o fis Gorffennaf 2018. Y gost yn 2018/19 fydd £44k;

- Gwirio - Mae gan yr adran wirio ôl-groniad sylweddol o waith i adnewyddu gwiriadau heddweision a staff. Amlygwyd hyn fel maes ble mae angen gwelliannau mewn adroddiad archwilio mewnol diweddar a chan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi ac, o ganlyniad, dyrannwyd adnoddau ychwanegol i'r gwaith hwn. Y gost yn 2018/19 fydd £25k.

- Camerau Cylch Cyfyng – mae darpariaeth o £16k wedi ei wneud tuag at costau cynnal camerau cylch cyfyng yn 2018/19.

4.8 Hefyd, yr wyf wedi dewis cefnogi prosiect brysbennu yn nalfa Hwlffordd. Bydd y prosiect yn rhedeg fel arbrawf am 12 mis, a dadansoddir y data perfformiad i weld a yw'n werth cyflwyno'r cynllun ar draws Dyfed-Powys. Mae'r prosiect brysbennu'n seiliedig ar fodel a gyflwynwyd yn llwyddiannus yn Durham. Yr wyf wedi neilltuo £100k ar gyfer y prosiect hwn.

4.9 Hefyd, bwriadaf gomisiynu rhagor o waith o ran trosedd ieuenctid a diogelwch cymunedol, ac felly wedi cynyddu'r gyllideb ar gyfer y rhain. Ariennir y rhain yn rhannol o arbedion y byddaf yn eu gwneud ar wasanaethau a gomisiynir ar hyn o bryd. Bwriadaf fuddsoddi cyfanswm o £139k yn fwy ar wasanaethau wedi'u comisiynu nag a wnaed yn 2017/18 er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu.

4.10 Yn ystod 2017/18 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reoli ystadau o ddydd i ddydd i finnau. Ar ôl adolygu’r cyllidebau a'r gwariant ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf yn drwyadl, credaf fod angen cynyddu'r gyllideb ystadau i adlewyrchu'r gwaith y mae angen ei wneud yn effeithiol er mwyn cynnal yr ystâd. Yn benodol, byddaf yn buddsoddi mwy i sicrhau cydymffurfio'n gyson â'r ddeddfwriaeth ar draws yr ystâd gyfan, a bwriadaf wella'r drefn cynnal a chadw o ran isadeiledd allweddol.

4.8 Ar ben y buddsoddiadau uchod, mae crynodeb y gyllideb ar gyfer 2018/19 yn cynnwys gostyngiadau yn y costau blynyddol o fewn yr Heddlu yn y swm o £1.925 miliwn, fel a ganlyn:

**Tabl 4: Lleihau Costau, Crynodeb - 2018/19**

| | | **Arbedion Disgwyliedig 2018/19** |
|---|---|---|
| | | **£'000** |
| Gweithlu | Moderneiddio'r Gweithlu | -109 |
| Gweithlu | Dileu swyddi staff dros dro | -99 |
| Gweithlu | Adolygiad rhingyllod | -55 |
| Gweithlu | Lleihau nifer y cyfarwyddwyr | -180 |
| Cyflogau/Lwfansau | Newidiadau yn Yswiriant Gwladol a gostwng lwfansau | -125 |
| Caffael | Arbedion trwy gydweithredu | -307 |
| Cydweithio | Gostyngiad cost Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | -230 |
| Ystadau | Llety Myfyrwyr | -111 |
| TGCh | Plismona digidol, telemetreg y fflyd, WAN | -210 |
| Masnacheiddio | Cynhyrchu incwm | -207 |
| Arall | Arall | -292 |
| | | **1,925** |

## 5. Cronfeydd wrth gefn

5.1 Mae'r tabl isod yn dangos y sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn ar ddechrau ac ar ddiwedd 2017/18.

**Tabl 5: Cronfeydd wrth gefn yn ystod 2017/18**

| | Mewn llaw ar 1af Ebrill 2017 | Newid net yn y cronfeydd | Gweddill ar 31ain Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|
| | **Gwirioneddol** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** |
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| Cronfeydd Refeniw wedi'u Clustnodi | 6.672 | -2.552 | 4.120 |
| Cronfa Gyfalaf | 16.061 | -4.408 | 11.653 |
| Cronfa Gyffredinol | 4.500 | -0.448 | 4.052 |
| **Cyfanswm** | **27.233** | **-7.408** | **19.825** |
| | | | |

5.2 Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am sut mae'r cynlluniau yn rhagweld gwario'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y blynyddoedd nesaf.

**Tabl 6: Defnydd Cronfeydd Wrth Gefn**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **18 /19** | **19 /20** | **20 /21** | **21 /22** | **22 /23** | **Cyfan-swm** |
| **Defnydd Cronfeydd** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| **Cronfeydd Refeniw** (cyfraniad i'r gyllideb refeniw) | **2.240** | **1.042** | **0.450** | **0** | **0** | **3.732** |
| | | | | | | |
| **Cronfa Cyfalaf** | **7.556** | **3.218** | **0** | **0** | **0** | **10.774** |
| | | | | | | |
| **Cyfanswm o'r Cronfeydd** | **9.796** | **4.260** | **0.450** | **0** | **0** | **14.506** |
| | | | | | | |
| **Mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn** | **10.028** | **5.768** | **5.318** | **5.318** | **5.318** | |

5.3 Mae'r llinell yn y tabl uchod sy'n cyfeirio at gyfraniad i'r gyllideb refeniw yn ymddangos o ganlyniad i benderfyniad y Comisiynydd blaenorol i ostwng praesept y dreth gyngor o 5% yn 2015/16 a defnyddio cronfeydd i ariannu elfen o'r gyllideb refeniw rhwng 2015/16 a 2018/19. Mae pwysau sylweddol ar gyllideb refeniw 2018/19 ac felly penderfynwyd defnyddio'r cronfeydd wrth gefn nid yn unig yn 2018/19 ond hefyd am y tair blynedd nesaf. Bellach, disgwylir y cyfraniad olaf o'r cronfeydd wrth gefn yn 2020/21 o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.

5.4 Ar ddiwedd 2023/24, disgwylir y bydd gweddill ar y gronfa gyffredinol o £4.052 miliwn, a bydd cyfanswm yr holl gronfeydd wrth gefn yn £5.318 miliwn.

## 6. Cyfalaf

6.1 Mae gan asedau sy'n cael eu rheoli a'u cynnal yn dda rôl allweddol wrth ddarparu gwasanaethau plismona effeithlon. Felly, mae'n synhwyrol cynllunio sut y caiff yr asedau hyn eu rheoli a'u cynnal. Dangosir y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2018/19 islaw:

**Tabl 7: Rhaglen Gyfalaf Ddrafft o 2018/19 tan 2023/24**

| **Rhaglen Gyfalaf** | **2018 /19** | **2019 /20** | **2020 /21** | **2021 /22** | **2022 /23** | **2023 /24** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | | **£m** | | | **£m** |
| Tir ac Adeiladau | 5.684 | 4.650 | 3.350 | 2.350 | 0.550 | 0.350 | 16.934 |
| Cerbydau (gan gynnwys cwch) | 0.953 | 0.962 | 1.095 | 1.050 | 1.050 | 1.050 | 6.160 |
| TG a Gwario Strategol Arall | 3.260 | 2.343 | 2.193 | 2.191 | 1.406 | 1.666 | 13.059 |
| **Gwariant Cyfalaf** | **9.897** | **7.955** | **6.638** | **5.591** | **3.006** | **3.066** | **36.153** |
| | | | | | | | |
| Grantiau | -0.318 | -0.318 | -0.318 | -0.318 | -0.318 | -0.318 | -1.908 |
| Benthyca | 0 | -3.881 | -5.295 | -3.748 | -0.663 | -0.223 | -13.810 |
| Derbyniadau Cyfalaf | -2.000 | -0.025 | -0.025 | -0.025 | -0.025 | -0.025 | -2.125 |
| Credyd cyfalaf Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | -0.023 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -0.023 |
| Cyfraniad o'r Cyfrif Refeniw | 0 | -0.513 | -1.000 | -1.500 | -2.000 | -2.500 | -7.513 |
| Cronfa Gyfalaf Wrth Gefn | -7.556 | -3.218 | 0 | 0 | 0 | 0 | -10.774 |
| **Ariannu Cyfalaf** | **-9.897** | **-7.955** | **-6.638** | **-5.591** | **-3.006** | **-3.066** | **36.153** |

## Atodiad A – Adroddiad y Prif Swyddog Ariannol

### 1. Gwargedion, Darpariaethau, a Chronfeydd Wrth Gefn

1.1 Yn unol â'r "Côd Ymarfer Rheolaeth Ariannol", mae'r Comisiynydd wedi ystyried rôl cronfeydd wrth gefn wrth lunio'r cynllun ariannol tymor canolig a'r gyllideb flynyddol. Mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol bob blwyddyn, fel bod modd ymateb i alwadau annisgwyl am gyllid heb amharu ar gyflawni'r prif flaenoriaethau.

1.2 Mae'r Côd yn mynnu bod y Comisiynydd yn gosod polisi ar gronfeydd wrth gefn (gan gynnwys sut y gall y Prif Gwnstabl eu defnyddio), mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlygu penderfyniadau'r Comisiynydd am gronfeydd wrth gefn fel bod modd eu cyfleu'n glir i drethdalwyr lleol, gan hybu atebolrwydd.

1.3 O dan y polisi cyfredol ar gronfeydd wrth gefn a'r trefniadau llywodraethu cysylltiedig, mae'r Prif Swyddog Ariannol yn gyfrifol am:

- Sicrhau darparu cyngor ar faint y cronfeydd wrth gefn a'r gwargedion yn unol â chanllawiau ar arfer da;
- Llunio adroddiad, pan fydd y gyllideb dan ystyriaeth, ar gadernid yr amcangyfrifon yn y gyllideb ac ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn, yn unol ag adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, ac yn unol â chyfarwyddyd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg.

1.4 Hefyd, mae nifer o ddulliau eraill o atal y Comisiynydd rhag ymrwymo i ormod o wario. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y gofyniad i lunio cyllideb fantoledig;
- Pwerau'r Prif Swyddog Ariannol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998, Adran 114, sy'n gosod gofyniad ar y Prif Swyddog Ariannol i adrodd yn ôl i'r Comisiynydd os bydd, neu os mae'n debyg y bydd, gwariant anghyfreithlon neu gyllideb anfantoledig; a
- Cyfrifoldeb yr archwiliwr allanol i adolygu, ac i adrodd ar, y sefyllfa ariannol yn cynnwys adolygu lefel y cronfeydd wrth gefn, gan ystyried ei wybodaeth am berfformiad y sefydliad dros gyfnod. Fodd bynnag, nid cyfrifoldeb yr archwiliwr yw pennu lefel orau posibl, neu isafswm, y cronfeydd wrth gefn am sefydliad unigol.

## 2. Datganiad ar y Cronfeydd Wrth Gefn

### Lefel y gronfa gyffredinol wrth gefn, a newidiadau i'r gronfa

2.1 Mae'r ddeddfwriaeth, a chanllawiau eraill, yn gofyn bod y sefydliad yn cadw cronfa gyffredinol wrth gefn. Er nad yw'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg yn gosod isafswm, na lefel orau posibl ar gyfer y gronfa, ei gyfarwyddyd cyffredinol yw sefydlu cronfa o "*adnoddau a neilltuwyd at ddibenion megis treuliau annisgwyl a rheoli'r llif arian*".

2.2 Mae’r "Canllawiau ar Gronfeydd Wrth Gefn a Gwargedion Awdurdodau Lleol", a gyhoeddwyd gan y Sefydliad, yn nodi bod angen Cronfa Gyffredinol i fod yn "*arian y gellir ei ddefnyddio i leddfu effaith llif arian afreolaidd ac osgoi benthyca dros dro diangen - mae hyn yn rhan o'r gronfa gyffredinol wrth gefn*". Mae angen Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn hefyd i fod yn "*fodd o leddfu effaith digwyddiadau annisgwyl ac argyfyngau - mae hyn yn rhan o'r gronfa gyffredinol wrth gefn hefyd*".

2.3 Mae cadw Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn sicrhau cydymffurfio â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, sy'n gosod gofyniad ar Awdurdodau Lleol i "*roi sylw i lefel y cronfeydd wrth gefn y mae eu hangen er mwyn talu am wariant amcangyfrifedig y dyfodol wrth osod y gyllideb*".

2.4 Mae polisi'r Comisiynydd ar gronfeydd wrth gefn yn datgan "Nid yw pennu lefel y cronfeydd wedi'u neilltuo a'r cronfeydd cyffredinol ond yn un o nifer o benderfyniadau cysylltiedig wrth lunio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r gyllideb ar gyfer blwyddyn benodol. Dylid ystyried y rhagdybiaethau ariannol allweddol sy'n tanategu'r gyllideb yn ogystal ag ystyried trefniadau rheolaeth ariannol y sefydliad."

2.5 Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae cyfanswm y gronfa gyffredinol wedi aros yn £4.5 miliwn. Fodd bynnag, gan ei bod yn ymddangos bellach bod y setliad canolog yn setliad dwy flynedd, a chan y gohiriwyd cyflwyno fformiwla cyllido newydd tan yr adolygiad gwario nesaf, gostyngwyd lefel y gronfa gyffredinol i adlewyrchu'r ffaith bod lefel y risg a wynebir gan y sefydliad bellach ychydig yn is. Ar gyfer 2018/19, cyfanswm y gronfa gyffredinol fydd £4.052 miliwn, sef 4.1% o gyllideb refeniw net 2018/19. Ystyriwyd y tri ffactor canlynol wrth bennu'r lefel addas ar gyfer y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn:

**A. Y sefyllfa ariannol yn ei chrynswth a digonolrwydd y rheolaeth ariannol**

2.6 Wrth osod lefel y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn, mae'n bwysig ystyried sefyllfa ariannol Heddlu Dyfed Powys yn ei chrynswth, a digonolrwydd y rheolaeth ariannol sydd ar waith. Mae'r Comisiynydd wedi ystyried y sefyllfa ariannol yn ei chrynswth fel rhan o'r broses gyllidebu, ac, er bod y sefyllfa ariannol yn gadarn, rhaid cadw mewn cof y posibiliad y bydd y llywodraeth yn cwtogi ar y cyllid yn y dyfodol.

2.7 Mae'n bwysig cofio cyd-destun strategaeth ariannol y tymor canolig hefyd, fel bod y Comisiynydd yn parhau i gydymffurfio â "Canllawiau ar Gronfeydd Wrth Gefn a Gwargedion Awdurdodau Lleol" y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg, sy'n awgrymu "*Dylid darparu cyngor ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn dros gyfnod y cynllun ariannol tymor canolig*".

**B. Risg, ac asesu risg**

2.8 Rhaid ystyried gosod lefelau'r cronfeydd wrth gefn yng nghyd-destun risg, er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r Sefydliad, sy'n dweud "*er mwyn asesu digonolrwydd cronfeydd wrth gefn sydd heb eu neilltuo'n benodol ... rhaid ystyried y risgiau strategol, gweithredol, ac ariannol y mae'r awdurdod yn eu hwynebu*".

2.9 Er na fydd risg, neu'r camau a gymerir i leddfu'r risg, o reidrwydd yn gyrru cynnydd yn lefel y gwario, bydd yn dylanwadu ar lefel y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn o flwyddyn i flwyddyn.

2.10 Y mae pedwar risg allweddol sy'n berthnasol ar hyn o bryd i lefel y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn awr ac yn y dyfodol, ac amlygir y rheini isod:

- Ansefydlogrwydd economaidd - y risg y bydd sefyllfa economaidd sy'n gwaethygu, gostyngiad mewn termau real yn lefel grantiau'r llywodraeth, a galwadau cynyddol am adnoddau'n cael effaith sylweddol ar yr adnoddau ariannol, sydd eisoes dan bwysau. Byddai hynny'n cyfyngu ar weithgarwch gweithredol a datblygiadau yn ystod y pedair blynedd nesaf ac ar ôl hynny, gan, er enghraifft, gyfyngu ar ein gallu i ddarparu lefel y plismona bro y mae'r cyhoedd yn ei ddisgwyl, os na awdurdodir tynnu ymhellach ar y cronfeydd wrth gefn.

- Risgiau allanol - megis Brexit a marchnadoedd ariannol byd-eang: mae'r rhain wedi'u hystyried wrth bennu lefel y cronfeydd wrth gefn;
- Digwyddiadau Gweithredol Mawr a chynlluniau cyfalaf sydd yn cael eu rheoli yn genedlaethol a lleol - ystyriwyd y tebygrwydd o ddigwyddiad mawr a allai godi o fewn ardal yr Heddlu a'r peryglon sydd wedi eu cysylltu i gynlluniau cyfalaf wrth bennu lefel addas ar gyfer y cronfeydd wrth gefn.
- Y Dreth Gyngor - mae cadw'r Dreth Gyngor dan reolaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth.

**C. Barn y Cyhoedd**

2.11 Mae bodlonrwydd y cyhoedd ar y praesept yn dibynnu i raddau ar y ddealltwriaeth bod yr arian yn cael ei wario ar blismona, ac nad oes ond swm rhesymol a darbodus yn cael ei gadw mewn Cronfa Gyffredinol Wrth Gefn. Ar y llaw arall, pan ddigwydd gwariant nas rhagwelwyd, mae'n debyg y byddai'r cyhoedd yn disgwyl bod gan y Comisiynydd ddigon o adnoddau heb orfod gorwario.

**Digonolrwydd y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn ac amcangyfrif o'r darpariaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a chyfnod strategaeth ariannol tymor canolig y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl**

2.12 Yn seiliedig ar y sylwadau uchod, awgrymir gostwng lefel y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn i £4.052 miliwn, sy'n cyfateb i 4.1% o'r gyllideb refeniw net arfaethedig ar gyfer 2018/19. Awgrymir cadw'r gronfa ar y lefel hon hyd nes bod mwy o sicrwydd ynghylch amseru ac effaith unrhyw newid i'r fformiwla a phwysau ariannol eraill yn y blynyddoedd i ddod.

**Adolygiad blynyddol o'r cronfeydd penodol, gan gynnwys amcangyfrifon o'r gweddillion ar ddiwedd y flwyddyn.**

2.13 Cedwir cronfeydd penodol fel modd o adeiladu cronfa i dalu am ofynion hysbys neu ofynion a ragwelir. Mae prif gronfeydd refeniw'r Comisiynydd wedi'u hadolygu'n rhan o'r broses o osod cyllideb 2018/19.

2.14 Ar ddechrau 2017/18, cyfanswm y cronfeydd wedi'u clustnodi oedd £6.671 miliwn a disgwylir y bydd y gweddill erbyn diwedd y flwyddyn

oddeutu £4.120 miliwn. Y gweddill ar ddiwedd y flwyddyn yw'r gweddill ar ôl i'r Comisiynydd ddefnyddio £2.552 miliwn o'r cronfeydd ar gyfer y gyllideb refeniw. Yn ystod y broses o bennu cyllideb 2017/18, y cynllun oedd tynnu £1.991 miliwn o'r cronfeydd ac, ar ben hynny, rhagwelir bellach y tynnir £0.561 miliwn ychwanegol i ariannu'r ymchwiliad parhaus i'r tân yn Llangamarch (Ymgyrch Heath).

2.15 Ar ddechrau 2017/18 cyfanswm y gronfa gyfalaf wrth gefn (yn cynnwys y gronfa derbyniadau cyfalaf a grantiau cyfalaf heb eu defnyddio) oedd £16.129 miliwn.

2.16 Mae'r rhaglen gyfalaf gyfredol yn gofyn am gyfanswm o £36.153 miliwn dros chwe blynedd, gan wario £9.897 miliwn yn 2018/19. Er mwyn cyllido'r rhaglen gyfalaf gyfredol yn llawn dros y chwe blynedd, defnyddir y cyfan o'r gronfa gyfalaf wrth gefn erbyn diwedd 2019/20. Ar ben hynny, rhagwelir y bydd angen benthyca £13.811 miliwn yn allanol yn ystod yr un cyfnod. Bydd mwyafrif y benthyca hwn yn ariannu adeiladu dalfa newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, a datrys problem yr adeiladau hen yn Aberhonddu. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd cyfanswm cost y ddau brosiect hyn oddeutu £13 miliwn.

**Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd**

## 3. Risgiau i'r Gyllideb

3.1 Mae Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn bod y Prif Swyddog Ariannol yn adrodd i'r Comisiynydd pan fydd y gyllideb yn cael ei gosod ar y risgiau a'r ansicrwydd a allai ofyn am wario mwy nag a fwriedid ar y gwasanaeth. Gwneir darpariaeth ar gyfer y risg hwn trwy:

- cynnwys darpariaeth ddarbodus yn y gyllideb; ac ar ben hynny
- sicrhau bod digon o arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio os bydd yr amcangyfrifon yn annigonol.

3.2 Mae'n bwysig bod y Comisiynydd yn derbyn cyfrifoldeb a sicrhau isafu'r risg i'r gyllideb pan fydd yn pennu'r gyllideb. Rhaid i'r Comisiynydd ystyried yn ffurfiol lefel y risg i'r gyllideb, yng ngoleuni cyngor a barn ei Brif Swyddog Ariannol.

3.3 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2018/19 yn adlewyrchu'r risgiau hysbys y gellir eu hamcangyfrifo. Fodd bynnag, ni fu modd cynnwys y risgiau canlynol:

- Newidiadau i setliad terfynol grantiau'r llywodraeth o gymharu â'r ffigyrau dros dro a gynhwyswyd yn yr adroddiad neu ar gyfer blynyddoedd i ddod;
- Newidiadau anrhagweladwy ym mholisïau'r llywodraeth;
- Effaith adolygiadau cynlluniau pensiwn ar gyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr.

3.4 Er mwyn galluogi'r Comisiynydd i ddod i benderfyniad, mae ei Brif Swyddog Ariannol wedi cynnal asesiad risg ar benawdau perthnasol y gyllideb refeniw a'r gyllideb cyfalaf, a amlygir ar y tudalennau canlynol. Cynhaliwyd asesiad risg ar y gwahanol benawdau yn y gyllideb yn seiliedig ar ganran cyfanswm y gyllideb refeniw net ac ar ffactorau hysbys allai ddylanwadu ar lefel y gwariant neu'r incwm gwirioneddol.

**Tabl 8: Asesiad Risg ar gyfer y Cyllidebau Perthnasol**

| Pennawd cyllideb | Canran costau net | Lefel y Risg | Risg a Nodwyd | Camau Lleddfu |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cyflogau Heddweision | 54% | Uchel | Nid yw goramser ar ddigwyddiadau/ gweithrediadau/ ymchwiliadau mawr yn cael ei reoli na'i fonitro, ac felly'n mynd dros y gyllideb.<br>Gallai lwfansau a bonysau ac yn y blaen fynd dros y gyllideb.<br>Mae nifer yr heddweision yn codi i fod yn uwch na'r nifer a gymeradwywyd.<br>Mae dyfodol ansicr i wobrau cyflog a pharhad (neu beidio) o wobr 2017 1% yn ddigyfnerthiad. | Bellach, cynrychiolir yr adran cyllid ar grwpiau aur a grwpiau ymchwiliad gweithredol yn rhan naturiol o brosesau bob dydd. Mae hyn yn ein galluogi i fonitro goramser a chostau eraill ac i adrodd arnynt ym mhob cyfarfod.<br>Mae nifer yr heddweision yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o'r broses rheoli'r gyllideb. Mae Gweithdrefn Monitro'r Gyllideb ar waith, a chyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Grŵp Prif Swyddogion.<br>Mae gan Adnoddau Dynol gynllun recriwtio ar gyfer y flwyddyn i ddod yn seiliedig ar ragolygon ar gyfer nifer yr heddweision fydd yn ymddeol, gadael a throsglwyddo. Mae nifer a dyraniad yr heddweision ar brawf yn cael eu cynllunio.<br>Mewn blwyddyn mae perfformiad cyllidol yn cael ei drafod yn gyson gan GHTh a'r PG mewn Byrddau Plismona ac o fewn seminarau cyllid ymroddedig. Mae materion cyllidol |

| **Pennawd cyllideb** | **Canran costau net** | **Lefel y Risg** | **Risg a Nodwyd** | **Camau Lleddfu** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | hefyd yn cael eu trafod ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, y Bwrdd Asedau Cyswllt a Chyllid a gan y Grwp Enillion. |
| Costau Cyflogau Staff yr Heddlu (gan gynnwys SCCH) | 27% | Uchel | Mae nifer y staff yn codi i fod yn uwch na'r nifer a gymeradwywyd.<br>Yn achos prosiectau sy'n galw am i staff weithio y tu allan i oriau arferol, nid yw'r amcangyfrifon ar gyfer goramser ac ati'n gywir.<br>Nid yw'r wobr cyflog 2017/18 wedi ei benderfynu eto ac mae ansicrwydd ystyrlon yn ei gwmpasu ynghyd a gwobrau cyflog pellach. | Mae nifer yr heddweision yn cael ei fonitro'n rheolaidd fel rhan o'r broses rheoli'r gyllideb. Mae proses yn cael ei sefydlu i fonitro a rheoli lefel y staffio ar sail strategol. Mae Gweithdrefn Rheoli'r Gyllideb ar waith.<br>Defnyddir staff proffesiynol y gyflogres ac adnoddau dynol i gytuno pa oriau ychwanegol y gall y staff hawlio amdanynt.<br>Mewn blwyddyn mae perfformiad cyllidol yn cael ei drafod yn gyson gan GHTh a'r PG mewn Byrddau Plismona ac o fewn seminarau cyllid ymroddedig. Mae materion cyllidol hefyd yn cael eu trafod ym Mwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, y Bwrdd Asedau Cyswllt a Chyllid a gan y Grwp Enillion. |
| Pensiynau | 12.5% | Canolig | Mae risg y bydd angen i ni dalu cyfraniadau uwch yn y dyfodol. | Yn gysylltiedig â chostau cyflogau |

| Pennawd cyllideb | Canran costau net | Lefel y Risg | Risg a Nodwyd | Camau Lleddfu |
|---|---|---|---|---|
| Heddweision | | | Hefyd, gallai newid y ffordd y trinnir rhai elfennau, megis taliadau am anafiadau, fod yn risg. | heddweision, gweler uchod.<br>Y gallu i newid y proffil recriwtio yn ystod y flwyddyn. |
| Costau Staff Anuniongyrchol | 0.9% | Canolig | Gallai'r rheiny gynyddu'n fwy na'r hyn a ragwelir yn y gyllideb.<br>Mae ansicrwydd yn bodoli ynglyn â phroses recriwtio'r heddlu sydd wedi ei gysylltu â Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu (PEQF) o Fawrth 2019. | Pennwyd cyllidebau hyfforddiant i adlewyrchu gofynion gweithredol allweddol. Mae cyllidebau'n cael eu monitro'n fisol ac mae grwp hyfforddi a blaenoriaethu yn ystyried blaenoriaethau cyn i hyfforddiant gael ei drosglwyddo. |

| Pennawd cyllideb | Canran costau net | Lefel y Risg | Risg a Nodwyd | Camau Lleddfu |
|---|---|---|---|---|
| Costau Adeiladau | 3% | Canolig | Mae'n bosibl y bydd angen buddsoddi mwy mewn adeiladau yn y dyfodol er mwyn osgoi rhaglen gyfalaf fawr ychwanegol i ddod ag adeiladau'n ôl i safon i sicrhau amgylchedd gwaith derbyniol a diogel i staff a heddweision.<br>Gall prisiau trydan a nwy barhau i amrywio wrth i gontractau gael eu hail-negodi. | Ystyrir y Rhaglen Cyfalaf yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, a'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol.<br>Mae'r Adran Caffael yn cynnwys yr Adran Cyllid mewn trafodaethau ynghylch contractau.<br>Mae gweithdrefnau monitro cadarn ar waith, a chydymffurfir â hwy.<br>Mae’r Grwp Ystadau yn cysylltu staff allweddol o fewn swyddfa’r Comisiynydd ac o’r Llu gyda chyfarfodydd misol i drafod materion ystadol yn cynnwys cyllid. Mae rhain hefyd yn cael eu trafod yn y Bwrdd Asedau Cyswllt sydd yn cael ei gadeirio yn aml gan y Comisiynydd. |

| Pennawd cyllideb | Canran costau net | Lefel y Risg | Risg a Nodwyd | Camau Lleddfu |
|---|---|---|---|---|
| Costau Trafnidiaeth | 2% | Canolig | Gallai nifer y cerbydau godi heb ddarpariaeth ddigonol ar gyfer costau rhedeg.<br>Gallai'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd arwain at gostau tanwydd uwch yn y dyfodol. | Ystyrir y Rhaglen Cyfalaf yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, a'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol.<br>Mae'r Grŵp Strategol ar gyfer Cerbydau'n cwrdd i drafod y fflyd cerbydau - cadeirir y grŵp gan y Cyfarwyddwr Cyllid.<br>Mae prisiau tanwydd yn cael eu monitro, ac asesir eu heffaith yn rhan o'r broses gadarn sydd ar waith i fonitro'r gyllideb.<br>Mae data telematig yn caniatau’r Llu i fonitro’r defnydd o gerbydau ac optimeiddio maint y fflyd.<br>Mae’r Bwrdd Asedau Cyswllt yn derbyn adborth misol ar faterion sydd wedi eu cysylltu gyda’r fflyd yn cynnwys y defnydd o gerbydau a thannwydd. |

| Pennawd cyllideb | Canran costau net | Lefel y Risg | Risg a Nodwyd | Camau Lleddfu |
|---|---|---|---|---|
| Cyflenwadau a Gwasanaethau a Chomisiynu | 10% | Canolig | Gallai prynu heb archeb pryniant arwain at wario mwy nag sydd yn y gyllideb. | Mae'r broses ar gyfer archebion prynu'n cynnwys gwirio eitemau gwerth uchel yn erbyn y gyllideb.<br>Bydd yr Adran Gaffael yn sicrhau bod nwyddau a gwasanaethau'n cael eu caffael yn unol â'r Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol.<br>Mae gweithdrefnau monitro cadarn ar waith, a chydymffurfir â hwy.<br>Mae'r Cyfarwyddwr Comisiynu'n awdurdodi gwasanaethau a gomisiynir gan y Comisiynydd. |
| Gwasanaethau asiantaeth a chontract | 2% | Isel | Ddim yn faterol berthnasol | Ddim yn faterol berthnasol |
| Ariannu Cyfalaf | 0.2% | Isel | Ddim yn faterol berthnasol | Ddim yn faterol berthnasol |

| Pennawd cyllideb | Canran costau net | Lefel y Risg | Risg a Nodwyd | Camau Lleddfu |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau Penodol | -7% | Uchel | Ni ddefnyddir grantiau'n unol â'r telerau ac amodau.<br>Gallai darparwyr grantiau atal taliadau heb fawr o rybudd. | Mae cofrestr grantiau'n cofnodi'r holl grantiau sy'n ddyledus.<br>Nid yw staff sy'n cael eu recriwtio i swyddi a ariennir trwy grant yn cael eu penodi ond ar sail dros dro am gyfnod y grant.<br>Cytunir telerau'r holl grantiau gyda'r Prif Swyddog Ariannol.<br>Awdurdodir yr holl ffurflenni am Newid Nifer y Staff gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.<br>Mae'r Cyfarwyddwr Comisiynu'n awdurdodi gwasanaethau a gomisiynir gan y Comisiynydd, ar ôl ymgynghori â'r Prif Swyddog Ariannol. |
| Incwm Arall | -6% | Isel | Ddim yn faterol berthnasol | Ddim yn faterol berthnasol |
| Defnydd Cronfeydd Wrth Gefn | -2% | Canolig | Defnyddir cronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant ailadroddol.<br>Nid oes modd ymateb i bwysau ar y gyllideb oherwydd galw annisgwyl heb effaith anffafriol. | Nid oes gan yr Heddlu gronfeydd gweithredol, heblaw am gyfle cyfyngedig i drosglwyddo arian rhwng cyllidebau. Mae Grŵp Prif Swyddogion yr Heddlu'n monitro'r sefyllfa ariannol yn rheolaidd. |

| Pennawd cyllideb | Canran costau net | Lefel y Risg | Risg a Nodwyd | Camau Lleddfu |
|---|---|---|---|---|
| Cyfalaf | Amherthnasol | Uchel | Mae maint, cost uchel, neu gymhlethdod prosiectau cyfalaf yn cynyddu'r risg o wario mwy na sydd yn y gyllideb, rhedeg yn hwyr, a methu â gwireddu amcanion yr achos busnes gwreiddiol. | Mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei chymeradwyo a'i monitro gan y Comisiynydd a'u trafod mewn cyfarfodydd misol y Bwrdd Asedau Cyswllt. Mae Prif Swyddogion yn derbyn adroddiadau rheolaidd ac yn monitro cynnydd ar brosiectau cyfalaf trwy'r Grŵp Prif Swyddogion. Mae trefniadau llywodraethu ar waith ar gyfer holl brosiectau mawr yr heddlu. |

**Jayne Woods – Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd**

## Atodiad B – Cynllun Ariannol Tymor Canolig

### 1. Cyllid y Dyfodol

1.1 Ers peth amser, cafwyd ansicrwydd sylweddol ynghylch setliadau ariannol y dyfodol. Dywedodd llythyr yr Ysgrifennydd Cartref, a ysgrifennwyd ar ddiwrnod Adolygiad Gwario 2015, y byddai gostyngiad o 1.3% mewn termau real yn y setliad plismona, gan gynnwys cyllido gwrthderfysgaeth, dros gyfnod o bedair blynedd. Gan gymryd incwm lleol i ystyriaeth, bydd y setliad yn diogelu gwario ar blismona, mewn termau real, dros gyfnod yr Adolygiad Gwario. Roedd y newyddion hyn yn well na'r disgwyl. Cyn hynny, disgwylid y byddai adrannau nad oedd eu gwariant yn cael ei ddiogelu yn dioddef gostyngiad o tua 27% dros gyfnod o dair blynedd.

1.2 Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd y Gweinidog dros Heddlu a Gwasanaethau Tân ostyngiad o 1.4% mewn termau arian parod ar gyfer pob heddlu yn 2017/18. Roedd y setliad dros dro hwn ychydig yn waeth na'r disgwyl, gan yr oedd y Swyddfa Gartref wedi amcangyfrifo’r cynnydd ar gyfartaledd y sylfaen drethu cyn cyfrifo'r gostyngiad.

1.3 Cyhoeddwyd y setliad ar gyfer 2018/19 gan y Gwir Anrhydeddus Nick Hurd AS ar 19 Rhagfyr 2012. Dyrannwyd grant arian parod gwastad i ni (hynny yw, yr un maint ag yn 2017/18). Ar ben hynny, cyhoeddodd y Gweinidog y byddem yn derbyn setliad arian parod mwy neu lai gwastad ar gyfer 2019/20, gan ddibynnu hefyd ar y cynnydd tuag at gerrig milltir effeithlonrwydd sydd i'w cytuno yn y flwyddyn newydd.

1.4 Y llynedd, roedd gostyngiad o 1.4% o flwyddyn i flwyddyn wedi cael ei fodelu a'i ddefnyddio fel y senario mwyaf tebygol (roedd hyn yn cyfateb i'r gostyngiad yn 2017/18 o gymharu â 2016/17). Fodd bynnag, ar sail y setliad dros dro ar gyfer 2018/19 a'r cyhoeddiad o ran 2019/20, rhagwelir setliadau arian parod gwastad hyd at, ac yn cynnwys, 2020/21.

1.5 Bellach, mae'n anhebyg y cyflwynir fformiwla newydd cyn yr adolygiad gwario nesaf. Byddai effaith yr adolygiad diwethaf (nas gweithredwyd) wedi bod yn ostyngiad o £7.9 miliwn yng ngrant Heddlu Dyfed-Powys. Felly, gan gofio hyn oll, mae'r cynllun ariannol tymor canolig hefyd yn cynnwys gostyngiad o 4% yn y grant canolog o 2021/22 ymlaen.

1.6 Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei arddangos isod:

**Tabl 9: Cyfanswm y cyllido, 2018/19 tan 2023/24**

| | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Grantiau Canolog | 49.313 | 49.313 | 49.313 | 47.340 | 45.446 | 43.629 |
| Praesept y Dreth Gyngor | 49.788 | 52.695 | 55.773 | 59.030 | 62.477 | 66.126 |
| **Cyfanswm** | **99.100** | **102.008** | **105.085** | **106.370** | **107.923** | **109.754** |
| **Newid o 'r flwyddyn flaenorol** | **+2.484** | **+2.908** | **+3.077** | **+1.285** | **+1.553** | **+1.831** |
| **Newid %** | **+2.57%** | **+2.93%** | **+3.02%** | **+1.22%** | **+1.46%** | **+1.70%** |

1.7 Mae'r cyfrifiadau manwl y tu ôl i'r ffigyrau yn y tabl uchod wedi'u cynnwys yn y tabl olaf ond un islaw.

## 2. Pwysau Ariannol Anochel

2.1 Yn ystod y cyfnod hwn, disgwylir y bydd chwyddiant prisiau a chyflogau'n rhoi pwysau at i fyny ar y gost o ddarparu gwasanaethau plismona, a gwnaed y rhagdybiaethau canlynol o ran y rhain:

**Tabl 10: Rhagdybiaethau Chwyddiant, 2018/19 tan 2023/24**

| **Rhagdybiaeth Gyllidebol(%)** | **18/19** | **19/20** | **20/21** | **21/22** | **22/23** | **23/24** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Heddweision | 2.29% | 2.20% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% |
| Staff yr Heddlu | 2.29% | 2.20% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% |
| Chwyddiant | 2.50% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% |
| Tanwydd, adeiladau | 2.50% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% |
| Tanwydd, cerbydau | 2.50% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% |
| Grantiau | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% |
| Incwm | 2.50% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% |
| Ariannu Cyfalaf | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | 0.00% |
| Pensiynau | 3.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% | 2.00% |

2.2 Yn ogystal â'r cynnydd hwn yn y costau sylfaenol, datblygwyd cynllun arbedion y disgwylir y bydd yn arbed cyfanswm o £5.080 miliwn yn ystod y chwe blynedd nesaf. Dangosir yr arbedion hyn yn y tabl isod:

**Tabl 11: Lleihau Costau, Crynodeb - 2018/19 hyd 2023/24**

| **Lleihau Costau** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Moderneiddio'r Gweithlu | -109 | -100 | -100 | -100 | -100 | -100 | -609 |
| Dileu swyddi staff dros dro | -99 | -167 | 0 | 0 | 0 | 0 | -266 |
| Adolygiad rhingyllod | -55 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -55 |
| Lleihau nifer y cyfarwyddwyr | -180 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -180 |
| Newidiadau yn Yswiriant Gwladol a gostwng lwfansau | -125 | -82 | -52 | -54 | -70 | -70 | -453 |
| Arbedion Caffael | -307 | -200 | -200 | -200 | -200 | -200 | -1,307 |
| Gostyngiad cost Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu | -230 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -230 |
| Llety Myfyrwyr | -111 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -111 |
| Plismona digidol, telemetreg y fflyd, WAN | -210 | -215 | -215 | -325 | -175 | -175 | -1,315 |
| Cynhyrchu incwm | -207 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | -207 |
| Ystadau | 0 | -250 | -75 | 0 | 0 | 0 | -325 |
| Arall | -292 | 0 | +270 | 0 | 0 | 0 | -22 |
| | **-1,925** | **-1,014** | **-372** | **-679** | **-545** | **-545** | **5,080** |

2.3 Crynhoir effaith defnyddio'r rhagdybiaethau cyllido, y pwysau costau, a'r arbedion a nodwyd islaw. Hyd yn oed ar ôl yr arbedion a nodwyd, erys bwlch o 2019/20 ymlaen:

**Tabl 12: Bwlch arbedion, 2018/19 tan 2023/24**

| | 18/19 | 19/20 | 20/21 | 21/22 | 22/23 | 23/24 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| Costau net plismona | 99.100 | 102.806 | 106.450 | 109.508 | 112.316 | 115.134 |
| Cyllido Canolog a'r Praesept Lleol | -99.100 | -102.008 | -105.085 | -106.370 | -107.923 | -109.754 |
| **Cyfanswm y bwlch arbedion (cronnol)** | **0** | **0.798** | **1.365** | **3.139** | **4.393** | **5.380** |

3. **Casgliadau a gwaith ychwanegol angenrheidiol**

3.1 Er gwaethaf yr ansicrwydd o ran cyllido yn y dyfodol, doeth yw datblygu cynlluniau i ymateb i ostyngiad yn y cyllido yn y blynyddoedd i ddod. Mae’r gwaith hwn ar y gweill.

3.2 Er bod modd cyfrifo effaith senarios cyllido gwahanol yn weddol rwydd, mae'r Prif Gwnstabl wrthi ar hyn o bryd yn llunio manylion y modelau gweithredu a ddefnyddir os bydd y senarios gwahanol yn digwydd. Os bydd fformiwla cyllido newydd yn golygu gostyngiad sylweddol yn lefel y cyllido canolog, byddai effaith sylweddol ar y gwasanaethau plismona, a byddai angen cymryd penderfyniadau anodd iawn.

3.3 Ar hyn o bryd, mae gwaith ar y gweill ar sail Cymru gyfan i asesu lefel yr arbedion posibl y gellid eu gwireddu trwy gydweithredu. Newydd gychwyn y mae'r gwaith hwn, ond dylai ddechrau nodi a gwireddu arbedion yn ystod y 12 mis nesaf.

3.4 Cynhelir trafodaethau ymhellach am y dyfodol yn 2018/19 i sicrhau bod y sefydliad yn parhau i weithio'n fwy effeithlon, gan barhau i ddarparu gwasanaethau plismona effeithiol i'r cyhoedd.

## Tabl 13: Model Ariannol Lefel Uchel ar gyfer y cyfnod o 2017/18 hyd at 2023/24

| | Gwaelodlin | Rhagdybiaethau | | | | | | Cyllid y rhagwelir y bydd ar gael | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Grantiau o'r Llywodraeth Ganolog** | | DRAFT | EST | EST | EST | EST | EST | | | | | | |
| Dyraniad Setliad Craidd yr Heddlu | -27,714 | 0.0% | 0.0% | 0.0% | -4.0% | -4.0% | -4.0% | -27,714 | -27,714 | -27,714 | -26,605 | -25,541 | -24,520 |
| Cyllid Gwaelodol | -8,729 | -2.6% | 0.0% | 0.0% | -4.0% | -4.0% | -4.0% | -8,498 | -8,498 | -8,498 | -8,158 | -7,832 | -7,518 |
| Grant Cynnal Refeniw | -3,935 | 8.3% | 0.0% | 0.0% | -4.0% | -4.0% | -4.0% | -4,261 | -4,261 | -4,261 | -4,091 | -3,927 | -3,770 |
| Trethi Annomestig Cenedlaethol | -8,935 | -1.1% | 0.0% | 0.0% | -4.0% | -4.0% | -4.0% | -8,840 | -8,840 | -8,840 | -8,486 | -8,147 | -7,821 |
| | **-49,313** | | | | | | | **-49,313** | **-49,313** | **-49,313** | **-47,340** | **-45,447** | **-43,629** |
| | -1.4% | | | | | | | 0.0% | 0.0% | 0.0% | -4.0% | -4.0% | -4.0% |
| **Praesept y Dreth Gyngor** | | | | | | | | | | | | | |
| Sylfaen | 221,176.14 | 0.24% | 0.80% | 0.80% | 0.80% | 0.80% | 0.80% | 221,708 | 223,482 | 225,270 | 227,072 | 228,889 | 230,720 |
| Cyfradd ar fand D | 213.87 | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 5.00% | 224.56 | 235.79 | 247.58 | 260 | 273 | 287 |
| **Praesept a ragwelir** | **-47,303** | | | | | | | **-49,787** | **-52,695** | **-55,772** | **-59,029** | **-62,477** | **-66,125** |
| **Cyfanswm Cyllido** | **-96,616** | | | | | | | **-99,100** | **-102,008** | **-105,085** | **-106,370** | **-107,924** | **-109,754** |
| | | | | | | | | 2.6% | 2.9% | 3.0% | 1.2% | 1.5% | 1.7% |
| *% wedi'i gyllido trwy'r dreth gyngor* | 49% | | | | | | | 50% | 52% | 53% | 55% | 58% | 60% |

| | Sylfaen drethu ar Fand D | | | Canran a gesglir | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sylfaen Drethu** | **2017/18** | **2018/19** | **Newid** | **2017/18** | **2018/19** | **Newid** |
| Sir Gaerfyrddin | 71,598.56 | 72,153.24 | 0.77% | 97.50% | 97.50% | 0.00% |
| Ceredigion | 31,893.64 | 31,683.05 | -0.66% | 98.50% | 98.50% | 0.00% |
| Sir Benfro | 55,919.65 | 56,103.15 | 0.33% | 98.00% | 98.00% | 0.00% |
| Powys | 61,764.29 | 61,768.85 | 0.01% | 98.50% | 98.50% | 0.00% |
| | **221,176.14** | **221,708.29** | **0.24%** | | | |

## Tabl 14: Cyfrif Refeniw 2017/18 hyd 2023/24

| | Cyllideb Derfynol | Cyllideb Arfaethedig | Rhagolwg ariannol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyllideb ar gyfer y Comisiynydd** | | | | | | | |
| Costau Staff | 695 | 685 | 700 | 714 | 728 | 743 | 758 |
| Costau Arall Swyddfa'r Comisiynydd | 336 | 336 | 343 | 350 | 357 | 364 | 371 |
| Ymchwil a Phrosiectau Cymunedol | 153 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Staff Comisiynu | 83 | 95 | 97 | 99 | 101 | 103 | 105 |
| Costau Arall Comisiynu | 710 | 877 | 895 | 912 | 931 | 949 | 968 |
| Staff Ystadau | 575 | 720 | 736 | 751 | 766 | 781 | 796 |
| Costau Arall yr Ystâd | 2,595 | 3,016 | 2,833 | 2,825 | 2,893 | 2,963 | 3,036 |
| **Cyfanswm Costau Swyddfa'r Comisiynydd** | **5,147** | **5,729** | **5,604** | **5,651** | **5,776** | **5,903** | **6,034** |
| **Cyllideb ar gyfer y Prif Gwnstabl a Staff a Reolir gan y Prif Gwnstabl** | | | | | | | |
| **Staff** | | | | | | | |
| Heddweision | 52,211 | 53,346 | 54,264 | 55,688 | 56,881 | 58,287 | 59,710 |
| Staff yr Heddlu | 21,341 | 21,910 | 22,621 | 23,236 | 23,862 | 24,500 | 25,150 |
| SCCH | 4,811 | 4,920 | 5,028 | 5,129 | 5,232 | 5,336 | 5,443 |
| Pensiynyau'r Heddlu (net) | 12,062 | 12,404 | 12,674 | 12,928 | 13,186 | 13,450 | 13,719 |
| Costau Staff Anuniongyrchol | 744 | 845 | 862 | 879 | 897 | 915 | 933 |
| **Cyfanswm Costau Gweithwyr** | **91,169** | **93,423** | **95,450** | **97,859** | **100,058** | **102,487** | **104,954** |
| **Costau Rhedeg** | | | | | | | |
| Costau Adeiladau | 301 | 309 | 315 | 321 | 328 | 334 | 341 |
| Costau Trafnidiaeth | 1,870 | 1,865 | 1,862 | 1,858 | 1,896 | 1,933 | 1,972 |
| Nwyddau a Gwasanaethau | 9,137 | 9,455 | 9,628 | 9,439 | 9,092 | 8,891 | 8,687 |
| Gwasanaethau Asiantaeth a Chontract | 2,103 | 2,022 | 2,063 | 2,104 | 2,146 | 2,189 | 2,233 |
| **Cyfanswm Costau Rhedeg** | **13,411** | **13,651** | **13,868** | **13,722** | **13,461** | **13,348** | **13,232** |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 378 | 236 | 858 | 1,754 | 2,458 | 2,983 | 3,483 |
| **Cyfanswm y Gwariant** | **104,958** | **107,310** | **110,176** | **113,335** | **115,976** | **118,818** | **121,670** |
| **Cyllidir Trwy:** | | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | | |
| Grantiau Penodol | -5,858 | -5,920 | -5,972 | -6,026 | -6,081 | -6,136 | -6,193 |
| Incwm Arall | -5,640 | -5,740 | -5,919 | -6,020 | -6,124 | -6,229 | -6,337 |
| **Cyfanswm Incwm** | **-11,498** | **-11,659** | **-11,891** | **-12,046** | **-12,205** | **-12,366** | **-12,530** |
| **Costau Net - Heddlu** | **93,460** | **95,651** | **98,284** | **101,289** | **103,772** | **106,452** | **109,140** |
| *% Newid* | | *2.3%* | *2.8%* | *3.1%* | *2.5%* | *2.6%* | *2.5%* |
| **Cyfraniad o Gronfeydd** | | | | | | | |
| Defnydd o / Cyfraniad at Gronfeydd | -1,991 | -2,279 | -1,081 | -489 | -39 | -39 | -39 |
| | **-1,991** | **-2,279** | **-1,081** | **-489** | **-39** | **-39** | **-39** |
| **Costau Net - Heddlu** | **91,468** | **93,371** | **97,203** | **100,799** | **103,733** | **106,413** | **109,100** |
| **Cyfanswm** | **96,616** | **99,100** | **102,806** | **106,450** | **109,508** | **112,316** | **115,134** |
| **Cost Net Plismona i'w Chyllido trwy grantiau a phraeseptau** | **96,616** | **99,100** | **102,806** | **106,450** | **109,508** | **112,316** | **115,134** |

## Tabl 14: Cyfrif Refeniw 2017/18 hyd 2023/24 (parhad)

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grantiau a phraeseptau** | -1.40% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | -4.0% | -4.0% | -4.0% |
| Grant yr Heddlu | -27,724 | -27,724 | -27,724 | -27,724 | -26,615 | -25,550 | -24,528 |
| Cyllido Gwaelodol | -8,874 | -8,874 | -8,874 | -8,874 | -8,519 | -8,178 | -7,851 |
| Trethi Annomestig Cenedlaethol | -8,161 | -8,161 | -8,161 | -8,161 | -7,835 | -7,521 | -7,221 |
| Grant Cynnal Refeniw | -4,554 | -4,554 | -4,554 | -4,554 | -4,371 | -4,197 | -4,029 |
| **Cyfanswm Cymorth Allanol** | **-49,313** | **-49,313** | **-49,313** | **-49,313** | **-47,340** | **-45,446** | **-43,629** |
| Praeseptau ar Awdurdodau Bilio | -47,303 | -49,788 | -52,695 | -55,773 | -59,030 | -62,477 | -66,126 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau** | **-96,616** | **-99,100** | **-102,008** | **-105,085** | **-106,370** | **-107,923** | **-109,754** |
| Arbedion heb eu nodi eto | -0 | 0 | 799 | 1,365 | 3,138 | 4,393 | 5,380 |
| **Sylfaen Drethu** | 221,177 | 221,708 | 223,482 | 225,270 | 227,072 | 228,889 | 230,720 |
| **Level y Dreth Gyngor** | £ 213.87 | £ 224.56 | £ 235.79 | £ 247.58 | £ 259.96 | £ 272.96 | £ 286.61 |
| Cynnydd y Dreth Gyngor | 6.9% | 5.0% | 5.0% | 5.0% | 5.0% | 5.0% | 5.0% |
| **Sylfaen drethu ar Fand D** | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
| Sir Gaerfyrddin | 71,599 | 72,153 | 72,730 | 73,312 | 73,899 | 74,490 | 75,086 |
| Ceredigion | 31,894 | 31,683 | 31,937 | 32,192 | 32,450 | 32,709 | 32,971 |
| Sir Benfro | 55,921 | 56,103 | 56,552 | 57,004 | 57,460 | 57,920 | 58,383 |
| Powys | 61,764 | 61,769 | 62,263 | 62,761 | 63,263 | 63,769 | 64,279 |
| Sylfaen Drethu | **221,177** | **221,708** | **223,482** | **225,270** | **227,072** | **228,889** | **230,720** |
| | 2.1% | 0.24% | 0.80% | 0.80% | 0.80% | 0.80% | 0.80% |